# Cynlluniau dirprwyo Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2024

Cyfeirnod y ddogfen:

Mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi paratoi'r cynlluniau dirprwyo hyn dan adran 18 a pharagraff 32 Atodlen 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mabwysiadodd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru eu priod gynlluniau ar [31 Gorffennaf 2024].

Archwilio Cymru yw hunaniaeth ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sydd ill dau'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol swyddogaethau i archwilio ac adrodd ar gyrff cyhoeddus Cymru. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaethau i ddarparu adnoddau, megis staff, i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Lle y bo'n berthnasol, mae testun y ddogfen hon yn nodi beth sy'n swyddogaethau i'r Archwilydd Cyffredinol a beth sy'n swyddogaethau i Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'i gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn 02920 320 500

E-bost post@archwilio.cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


**Cynllun dirprwyo swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru**

Cyflwyniad 4

Swyddogaethau cyffredinol y Bwrdd a swyddogaethau a gadwyd yn ôl iddo 4

Amodau dirprwyo 5

- Rhestr fanwl o drefniadau dirprwyo 7
  - darparu staff ac adnoddau eraill 7
  - cyflogi staff 7
  - materion ariannol 9
  - sicrhau gwasanaethau 10
  - dal eiddo a rheoli adeiladau 12
- dal dogfennau a chadw cofnodion 12
- monitro'r modd yr arferir swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol 14
- cynghori'r Archwilydd Cyffredinol 14
  - cynllunio ac adrodd corfforaethol a rhwymedigaethau eraill 14
  - cynllun blynyddol 14
  - cyfrifon ac archwilio 15
- adroddiadau 16
- gwaith trwy gytundeb 16

swyddogaethau eraill 17

**Cynllun dirprwyo swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Cyflwyniad 20

Swyddogaethau cyffredinol yr Archwilydd Cyffredinol a swyddogaethau a gadwyd yn ôl iddo 21

Amodau dirprwyo 23

- Rhestr fanwl o drefniadau dirprwyo 24
  - archwilio a.y.b. cyrff cyhoeddus 24
- paru data 31
- rheoli Cronfa Gyfunol Cymru 31
- cyhoeddi cod ymarfer archwilio, canllaw technegol ac ansawdd 32
- swyddogaethau atodol a.y.b. 33
- swyddogaethau eraill 34

# Cynlluniau dirprwyo

## Cynllun dirprwyo swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru

### Cyflwyniad

1 Mae'r cynllun hwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer dirprwyo swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru (y Bwrdd). Ar gyfer cyd-destun, mae hefyd yn nodi'r swyddogaethau a gadwyd yn ôl i gael eu harfer gan y Bwrdd. I gael golwg gynhwysfawr ar drefniadau dirprwyo yn y sefydliad, dylid darllen y cynllun hwn ochr yn ochr â chynllun dirprwyo Archwilydd Cyffredinol Cymru.

2 Fel gyda phenderfyniadau eraill, gall y Bwrdd ddiwygio neu ddirymu ei gynllun dirprwyo yn unol â'i reolau gweithdrefnol (a nodir yn ei amodau gorchwyl). Ar ben hynny, ni waeth beth fo darpariaethau'r cynllun dirprwyo hwn, gall y Bwrdd ar unrhyw adeg arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau ei hun, naill ai o'i ben a'i bastwn ei hun neu ar argymhelliad swyddog y dirprwyir y mater iddo/iddi.

3 Er gwaethaf unrhyw drefniadau dirprwyo, mae'r Bwrdd yn dal i fod yn gyfrifol am arfer ei swyddogaethau.

4 Heblaw am swyddogaethau a gadwyd yn ôl gan statud, mae'r Bwrdd yn darparu trefn ddirprwyo gyffredinol i'w swyddogaethau nad ydynt wedi'u dirprwyo na'u cadw yn ôl gan gynllun dirprwyo'r Bwrdd gael eu harfer gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru ac i swyddogaethau o'r fath gael eu dirprwyo ymhellach os penderfynir hynny gan yr Archwilydd Cyffredinol. Gall yr Archwilydd Cyffredinol ddirprwyo'r swyddogaethau hynny ymhellach, gyda'r amodau cyffredinol a nodir ym mharagraff 9 isod.

5 Mae adrannau nesaf y ddogfen hon yn darparu:

(a) crynodeb o swyddogaethau'r Bwrdd i ddarparu cyd-destun ar gyfer y rhestr fanwl (nid yw hyn yn lleihau effaith cynnwys y rhestr);

(b) yr amodau dirprwyo sy'n berthnasol i'r cynllun hwn;

(c) rhestr fanwl o drefniadau dirprwyo.

### Swyddogaethau cyffredinol y Bwrdd a swyddogaethau a gadwyd yn ôl iddo

6 Yn fras, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am:

a) monitro'r modd yr arferir swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol;

b) rhoi cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol[1];

[1] Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddisgresiwn llawn o ran y modd y caiff swyddogaethau'r swydd honno eu harfer; yn amodol ar anelu at gyflawni ei swyddogaethau yn effeithlon ac yn gost-effeithiol, gan roi sylw i'r safonau a'r

(c) cyflogi staff a darparu adnoddau ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.

7 Mae'r Bwrdd hefyd dan ddyletswydd statudol ar y cyfan i "anelu at gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol ac yn gost-effeithiol" (adran 15 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013).

8 Ceir swyddogaethau penodol, a ragnodir gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 sydd, ni waeth beth a nodir mewn unrhyw gynllun, yn rhai na ellir eu dirprwyo:

(a) amcangyfrif incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer pob blwyddyn ariannol;
(b) paratoi cynllun blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol gyda'r Archwilydd Cyffredinol[2];
(c) gwneud rheolau at ddiben rheoleiddio gweithdrefn Swyddfa Archwilio Cymru;
(d) argymell rhywun wrth y Senedd i archwilio cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru;
(e) dynodi, gyda chytundeb y Senedd, rywun arall i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol dros dro.

8. Dylid nodi bod y swyddogaethau i fynd ati ar y cyd i baratoi adroddiad ac adroddiad interim bob blwyddyn ar arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru a gosod yr adroddiadau hynny gerbron yn swyddogaeth sydd i'w harfer ar y cyd gan Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol, ac nad oes darpariaeth statudol i ddirprwyo'r swyddogaethau hyn. Yn yr un modd, un o swyddogaethau'r aelodau anweithredol yw'r swyddogaeth i benodi aelodau i'r Bwrdd o blith cyflogeion, ac ni ellir dirprwyo'r swyddogaeth hon ychwaith.

9. Ceir swyddogaethau eraill nad ydynt wedi'u rhagnodi ond y mae'r Bwrdd wedi dewis eu cadw'n ôl i'w hunan ac a nodir yn y rhestr fanwl.

## Amodau dirprwyo

9 Mae'r trefniadau dirprwyo yn y cynllun hwn yn amodol ar y canlynol:

(a) rhaid i bersonau sy'n arfer swyddogaethau dirprwyedig anelu at gyflawni'r swyddogaethau hynny'n effeithlon ac yn gost-effeithiol, fel sy'n ofynnol yn ôl adran 15 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013;
(b) rhaid i'r holl swyddogaethau dirprwyedig gael eu harfer yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Swyddfa Archwilio Cymru;

egwyddorion y disgwylir i ddarparwr arbenigol proffesiynol mewn cyfrifyddiaeth neu wasanaethau archwilio eu dilyn, a rhoi sylw i gyngor gan y Bwrdd.

[2] Dylid nodi, er mai un o swyddogaethau'r Bwrdd sydd i gael ei harfer ar y cyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol yw paratoi'r cynllun blynyddol, mai un o swyddogaethau'r Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru sydd i gael ei harfer ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol yw gosod y cynllun blynyddol gerbron. Nid oes darpariaeth mewn statud i ddirprwyo'r swyddogaeth i osod y cynllun blynyddol gerbron.

(c) cyn arfer unrhyw swyddogaeth ddirprwyedig rhaid i'r sawl sy'n arfer y swyddogaeth gynnal ymgyngoriadau priodol, er enghraifft, â'r Pennaeth Cyllid mewn perthynas ag unrhyw oblygiadau sylweddol o ran adnoddau;

(d) rhaid peidio ag arfer swyddogaethau dirprwyedig mewn modd sy'n debygol o fod yn achos pryder cyhoeddus;

(e) ac eithrio lle mae'r rhestr yn dynodi na all swyddogaeth gael ei dirprwyo neu gael ei dirprwyo ymhellach, caniateir dirprwyo pellach ar yr amod y cofnodir y trefniant dirprwyo hwnnw'n ysgrifenedig.

10 Rhaid i'r rhai sy'n arfer trefniadau dirprwyo roi sylw i rolau a chyfrifoldebau'r Tîm Arwain Gweithredol a ddisgrifir yn ei amodau gorchwyl. Bydd y sawl sy'n arfer y swyddogaeth ddirprwyedig yn pennu natur, cwmpas ac amseriad unrhyw ymgysylltiad â'r Tîm Arwain Gweithredol.

## Rhestr fanwl o drefniadau dirprwyo

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| **1.** | **Darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol** | | |
| 1.1 | Cyflogi staff (Adran 21(2)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) | | |
| 1.1.1 | Pennu'r telerau ac amodau cyflogaeth ar y cyfan gan gynnwys:<br>(a) y strategaeth gyflog<br>(b) newidiadau sylweddol i delerau ac amodau<br>(c) polisïau newydd neu gynhennus, fel a ddiffinnir mewn canllawiau<br>(d) yr holl faterion eraill sy'n ymwneud â thelerau ac amodau cyflogaeth | (a) i (c) wedi'u cadw'n ôl i'r Bwrdd<br>(d) wedi'i dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Yn ogystal â graddfeydd cyflog a'r strategaeth gyflog, mae telerau ac amodau cyflogaeth ar y cyfan yn cyfeirio fel rheol at y Llawlyfr Cyflogeion ac unrhyw bolisïau newydd neu gynhennus. Gall y Bwrdd gael ei gynghori gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol |
| 1.1.2 | Pennu strwythur cyffredinol y sefydliad gan gynnwys cyfansoddiad (o ran seddi a chyfrifoldebau) y Tîm Arwain Gweithredol | Wedi'i dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried cyngor y Bwrdd |
| 1.1.3 | Pennu strwythur y sefydliad islaw'r Tîm Arwain Gweithredol, gan gynnwys cyfansoddiad (o ran nifer y swyddi a chyfrifoldebau) | Wedi'i dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a hwythau'n gweithredu ar y cyd (y Tîm Arwain Gweithredol) mewn perthynas â'r strwythur ar y cyfan, ac ar wahân ar gyfer eu priod unedau busnes | Yn amodol ar ymgynghori yn unol â pholisïau Adnoddau Dynol perthnasol ac yn amodol ar y cynllun ariannol tymor canolig |
| 1.1.4 | Penodi a therfynu penodiad:<br>(a) Cyfarwyddwyr Gweithredol<br>(b) cyfarwyddw(y)r ymrwymiad a/neu arweinydd/arweinwyr ymrwymiad ar gyfer Comisiwn y Senedd a Chronfa Gyfunol Cymru<br>(c) yr holl gyfarwyddwyr eraill | (a) Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd<br>(b) Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd<br>(c) Wedi'i dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr | Cynghorir y Bwrdd gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol<br>Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried cyngor gan Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio wrth benodi neu derfynu penodiad cyfarwyddwyr archwilio<br>I sicrhau y cydymffurfir â Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, lle mae'r arweinydd ymrwymiad perthnasol yn penderfynu bod materion yn codi a allai gael eu dehongli fel eu bod neu y gellid meddwl eu bod |

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | | | yn arwain at wrthdaro buddiannau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fel person naturiol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cymryd unrhyw ran bersonol yn y broses o arfer y swyddogaethau hyn mewn perthynas â staff sy'n archwilio Comisiwn y Senedd na Chronfa Gyfunol Cymru mewn perthynas â'r gwaith hwnnw |
| 1.1.5 | Asesu perfformiad:<br>(a) cyfarwyddwyr sy'n atebol i'r Archwilydd Cyffredinol<br>(b) cyfarwyddwyr eraill | (a) Wedi'i dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr<br>(b) Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio | Mae trefniadau gwrthlofnodi'n berthnasol fel a nodir yn y polisi arfarnu. Gyda'r eithriadau canlynol, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cymryd rhan mewn prosesau i asesu'r holl gyfarwyddwyr, naill ai'n uniongyrchol neu fel swyddog gwrthlofnodi. Yr eithriadau yw cyfarwyddwyr sy'n rhan o archwilio Comisiwn y Senedd a Chronfa Gyfunol Cymru, lle mae'r arweinydd ymrwymiad perthnasol yn penderfynu bod materion yn codi a allai gael eu dehongli fel eu bod neu y gellid meddwl eu bod yn arwain at wrthdaro buddiannau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fel person naturiol. Mewn achosion o'r fath, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cymryd rhan mewn unrhyw asesiad mewn perthynas â'r elfen honno o'u rôl.<br>Ni chynhwysir y cyfarwyddwyr hynny er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r Safon Foesegol |
| 1.1.6 | Penodi, asesu a therfynu penodiad cyflogeion eraill | Wedi'i dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel y Prif Weithredwr, ac eithrio mewn perthynas â'r rhai sy'n archwilio Comisiwn y | Fe'i dirprwyir ymhellach i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ac ymhellach yn unol â pholisïau Adnoddau Dynol |

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | | Senedd neu Gronfa Gyfunol Cymru (mae terfynu penodiad aelodau o'r Bwrdd sy'n gyflogeion wedi'i gynnwys yn nhrefniant dirprwyo 6.5) | I sicrhau y cydymffurfir â'r Safon Foesegol, lle mae'r arweinydd ymrwymiad perthnasol yn penderfynu bod materion yn codi a allai gael eu dehongli fel eu bod neu y gellid meddwl eu bod yn arwain at wrthdaro buddiannau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fel person naturiol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cymryd unrhyw ran bersonol yn y broses o arfer y swyddogaethau hyn mewn perthynas â staff sy'n archwilio Comisiwn y Senedd na Chronfa Gyfunol Cymru. |
| 1.1.7 | Cymeradwyo ceisiadau am ymadawiad gwirfoddol:<br>(a) gan (i) cyfarwyddwyr neu (ii) unrhyw aelodau eraill o staff lle mae gwerth y taliad ymadael yn £95,000 neu uwch<br>(b) yr holl geisiadau eraill | (a) Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd<br>(b) Wedi'i dirprwyo i'r Tîm Arwain Gweithredol | (a) fel a gynghorir gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol<br>(b) fel a gynghorir gan Dîm y Cyfarwyddwyr |
| 1.1.8 | Pennu a monitro'r modd y cyflawnir y Strategaeth Pobl a chynllun strategol y gweithlu | Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd | Gall y Bwrdd gael ei gynghori gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol a gaiff ei gynghori gan y Tîm Arwain Gweithredol |
| 1.1.9 | Cymeradwyo polisïau Adnoddau Dynol newydd, neu newidiadau sylweddol i rai presennol (ac eithrio'r rhai o dan drefniant dirprwyo 1.1.1) | Wedi'i dirprwyo i'r Tîm Arwain Gweithredol | Mae'r cyfrifoldeb am baratoi'r polisïau hyn wedi'i ddirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a gefnogir gan y Pennaeth Adnoddau Dynol |
| 1.1.10 | Cymeradwyo polisïau newydd sy'n gysylltiedig â staff, neu newidiadau sylweddol i rai presennol, gan gynnwys:<br>• y Cod Ymddygiad ar gyfer staff<br>• y polisi ar chwythu'r chwiban yn fewnol<br>• y polisi rhoddion a lletygarwch | Wedi'i dirprwyo i'r Tîm Arwain Gweithredol | Mae'r cyfrifoldeb am baratoi'r polisïau hyn wedi'i ddirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a gefnogir gan Bennaeth y Gyfraith a Moeseg |
| 1.2 | Materion Ariannol | | |

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.2.1 | Paratoi a gosod yr amcangyfrif o incwm a threuliau ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol | Wedi'i chadw'n ôl gan statud i'r Bwrdd | Adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013<br>Cynghorir y Bwrdd gan y Tîm Arwain Gweithredol |
| 1.2.2 | Cymeradwyo'r cynllun ariannol tymor canolig a chynllun y gweithlu | Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd | Cynghorir y Bwrdd gan y Tîm Arwain Gweithredol |
| 1.2.3 | Pennu cyllidebau mewnol (gan gynnwys cyfrifoldebau cyllidebol wedi'u dirprwyo) o fewn yr amcangyfrif cymeradwy | Wedi'i dirprwyo i'r Tîm Arwain Gweithredol | Trefniadau dirprwyo pellach i ddeiliaid cyllidebau a phenaethiaid cyllidebau yn unol â'r Llawlyfr Rheolaeth Ariannol a llythyrau dirprwyo |
| 1.2.4 | Cymeradwyo ymrwymiadau gwariant a monitro cyllidebau mewnol ar gyfer prosiectau a chontractau â gwerth oes o:<br>(a) £250,000 neu fwy (nid yw'n cynnwys y gyflogres)<br>(b) rhwng £50,000 a £250,000<br>(c) hyd at £50,000<br>(nid yw'n cynnwys colledion a thaliadau arbennig – gweler trefniant dirprwyo 1.2.5; nid yw'n cynnwys gwaith trwy gytundeb ychwaith – gweler adran 5) | (a) Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd<br>(b) Wedi'i dirprwyo i'r Tîm Arwain Gweithredol (fel Bwrdd y Rhaglen Newid)<br>(c) Wedi'i dirprwyo i bennaeth y gyllideb ar gyfer y maes gwariant perthnasol | |
| 1.2.5 | Awdurdodi colledion a thaliadau arbennig:<br>(a) £15,000 ac uwch<br>(b) islaw £15,000 | (a) Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd<br>(b) Wedi'i dirprwyo i'r Tîm Arwain Gweithredol | |
| 1.2.6 | Cymeradwyo'r cynllun ffioedd i'w gyflwyno i'r Senedd | Wedi'i chadw'n ôl gan statud i'r Bwrdd | Adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013<br>Cynghorir y Bwrdd gan y Tîm Arwain Gweithredol |
| 1.2.7 | Cymeradwyo talu treuliau i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys fel Prif Weithredwr | Wedi'i chadw'n ôl i'r Cadeirydd | |
| 1.2.8 | Darparu yswiriant bywyd ychwanegol:<br>(a) newidiadau i reolau unrhyw gynllun, gan gynnwys unrhyw benderfyniad i ganslo'r cynllun<br>(b) gweinyddu unrhyw gynllun yn barhaus | (a) Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd<br>(b) Wedi'i dirprwyo i'r Tîm Arwain Gweithredol | |
| 1.3 | Sicrhau gwasanaethau (Adran 21(2)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) | | |
| 1.3.1 | Paratoi a gosod polisïau a chanllawiau caffael | Wedi'i dirprwyo i'r Tîm Arwain Gweithredol | Mae'r Tîm Arwain Gweithredol yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am baratoi'r polisi a'r canllawiau i Gyfarwyddwr |

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | | | Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a gefnogir gan y Pennaeth Gwasanaethau Busnes mewn cyswllt â'r Pennaeth Cyllid |
| 1.3.2 | Pennu gwasanaethau penodol sy'n ofynnol, gan gynnwys drafftio manyleb | Wedi'i dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i benaethiaid cyllidebau fel a nodir yn y Llawlyfr Rheolaeth Ariannol |
| 1.3.3 | Sicrhau y darperir gwasanaethau archwilio proffesiynol (h.y. contractwyr) fel sy'n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol | Wedi'i dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio a fydd yn ymgynghori â Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol |
| 1.3.4 | Sicrhau y darperir cyfleusterau TG ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol a'r Bwrdd | Wedi'i dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a gefnogir gan y Pennaeth TCGh |
| 1.3.5 | Sicrhau y darperir offer swyddfa, dodrefn, deunydd ysgrifennu, cludiant a rheolaeth ar adeiladau ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol a'r Bwrdd | Wedi'i dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a gefnogir gan y Pennaeth Gwasanaethau Busnes |
| 1.3.6 | Sicrhau mynediad at gyngor cyfreithiol a phroffesiynol arall annibynnol ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol a'r Bwrdd | Wedi'i dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a gefnogir gan Bennaeth y Gyfraith a Moeseg |
| 1.3.7 | Gwaith cyfathrebu mewn perthynas â swyddogaethau'r Bwrdd | Wedi'i dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a gefnogir gan y Pennaeth Cyfathrebu |

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.3.8 | Sicrhau y darperir gwasanaethau archwilio mewnol | Wedi'i dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a gefnogir gan y Pennaeth Gwasanaethau Busnes<br>Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cymryd cyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| 1.3.9 | Sicrhau bod y rhaglen newid yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus | Wedi'i dirprwyo i'r Tîm Arwain Gweithredol (fel Bwrdd y Rhaglen Newid) | |
| 1.4 | Dal eiddo a rheoli adeiladau (Adran 21(2)(c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) | | |
| 1.4.1 | Cymeradwyo'r strategaeth ystadau | Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd | Bydd y Bwrdd yn cael ei gynghori gan y Tîm Arwain Gweithredol. Caiff gwaith i baratoi'r strategaeth ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a gefnogir gan y Pennaeth Gwasanaethau Busnes |
| 1.4.2 | Caffael, dal a gwerthu eiddo | Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd | Bydd y Bwrdd yn cael ei gynghori gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr. Gwaith paratoi'n cael ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol |
| 1.5 | Dal dogfennau a chadw cofnodion (Adrannau 21(2)(d) a 21(2)(e) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) a thystiolaeth ddogfennol (Paragraff 36 Atodlen 1 Deddf 2013) | | |
| 1.5.1 | Cymeradwyo polisïau a gweithdrefnau ar gyfer dal dogfennau, cadw cofnodion a dal gwybodaeth mewn perthynas â'r holl swyddogaethau (gan gynnwys diogelwch gwybodaeth) | Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd | Cynghorir y Bwrdd gan y Tîm Arwain Gweithredol.<br>Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol (fel yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth – SIRO) sy'n arwain y gwaith yn y maes hwn gan gael ei gefnogi gan y Pennaeth Gwasanaethau Busnes (fel y Swyddog Cofnodion Adrannol (DRO)), Pennaeth y Gyfraith a Moeseg a'r Pennaeth TGCh. |

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw’n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | | | Mae Cyfarwyddwyr, Arweinwyr Ymrwymiad, a Phenaethiaid Gwasanaeth yn atebol i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer cydymffurfio â gofynion llywodraethu gwybodaeth yn y meysydd y maent hwy’n gyfrifol amdanynt (fel Perchnogion Asedau Gwybodaeth (IAO)).<br>O ran cadw cofnodion sy’n ymwneud â dal a defnyddio adnoddau, gweler y swyddogaethau Swyddog Cyfrifyddu yn rhan 6 o gynllun dirprwyo’r Archwilydd Cyffredinol. |
| 1.5.2 | Dal dogfennau a chadw cofnodion mewn perthynas â thrafodion y Bwrdd ac arfer ei swyddogaethau mewn ffyrdd eraill (nid yw’n cynnwys cadw sêl a chofrestr o seliau) | Wedi’i dirprwyo i Ysgrifennydd y Bwrdd | |
| 1.5.3 | Dal dogfennau a chadw cofnodion mewn perthynas ag arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol yn bersonol | Wedi’i dirprwyo i’r Archwilydd Cyffredinol | Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo hyn ymhellach i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol |
| 1.5.4 | Dal dogfennau a chadw cofnodion mewn perthynas ag arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol dan drefniadau dirprwyo | Wedi’i dirprwyo ar sail gydradd â threfniadau dirprwyo eraill dan y cynllun hwn | |
| 1.5.5 | Trin ceisiadau am wybodaeth (e.e. dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth neu ddiogelu data) | Wedi’i dirprwyo i’r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo’r swyddogaeth hon ymhellach i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a gefnogir gan Bennaeth y Gyfraith a Moeseg<br>Nid yw’r trefniant dirprwyo hwn yn berthnasol i ddarparu barn yr Archwilydd Cyffredinol fel “Person Perthnasol” ar gyfer a36 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a gedwir yn ôl yn statudol i’r Archwilydd Cyffredinol |

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.5.6 | Cadw sêl a chofrestr seliau Swyddfa Archwilio Cymru | Pennaeth y Gyfraith a Moeseg | |
| **2.** | **Monitro'r modd yr arferir swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol** | | |
| 2.1 | Monitro'r modd yr arferir swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol | Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd | Adran 17(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Cefnogir y Bwrdd yn y swyddogaeth hon trwy ddarparu adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer pob un o gyfarfodydd y Bwrdd ac adroddiadau a gynhyrchir o leiaf yn flynyddol ar:<br>- ansawdd archwilio;<br>- cwynion;<br>- chwythu'r chwiban (gan gynnwys mewn perthynas â datgeliadau sy'n gysylltiedig â moeseg fel sy'n ofynnol yn ôl y Safon Foesegol).<br>(gweler eitemau 3.4 a 4.3 yng nghynllun dirprwyo'r Archwilydd Cyffredinol)<br>Gall y Bwrdd gael pa bynnag gynhorthwy pellach ar gyfer ei waith monitro ag y mae'n rhesymol yn tybio'i fod yn angenrheidiol. |
| 2.2 | Goruchwylio'r modd y cyflawnir rôl Swyddog Cyfrifyddu'r Archwilydd Cyffredinol | Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd | Cynghorir y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| **3.** | **Cynghori'r Archwilydd Cyffredinol** | | |
| 3.1 | Rhoi cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch ei swyddogaethau yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd ac yn gyffredinol | Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd | Adran 17(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Cefnogir y Bwrdd yn y swyddogaeth hon fel a ddynodir gan y nodiadau yn eitem 2.1 uchod. |
| **4.** | **Cynllunio ac adrodd corfforaethol a rhwymedigaethau eraill** | | |
| 4.1 | Y cynllun blynyddol (adran 25(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) | | |

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 4.1.1 | Paratoi'r[3] Cynllun Blynyddol ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol | Wedi'i chadw'n ôl gan statud i'r Bwrdd | Cynghorir y Bwrdd gan y Tîm Arwain Gweithredol. Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid sy'n arwain y gwaith hwn gan gael ei gefnogi gan y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd |
| 4.2 | Cyfrifon ac archwilio (i'w ddarllen ar y cyd ag adran 6 yng nghynllun dirprwyo'r Archwilydd Cyffredinol sy'n ymwneud â'i swyddogaethau fel Swyddog Cyfrifyddu) | | |
| 4.2.1 | Cyflwyno'r cyfrifon i'r archwilydd allanol | Wedi'i chadw'n ôl gan statud i'r Cadeirydd | Paragraff 35(1)(b) Atodlen 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| 4.2.2 | Cymeradwyo cyfrifon blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ac argymell eu bod yn cael eu llofnodi gan yr Archwilydd Cyffredinol fel y Swyddog Cyfrifyddu | Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd | Cynghorir y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| 4.2.3 | Argymell archwilydd i archwilio cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru i'r Senedd | Wedi'i chadw'n ôl gan statud i'r Bwrdd | Paragraff 34(2) Atodlen 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013<br>Cynghorir y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg<br>Caiff gwaith i alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r swyddogaeth hon ei ddirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu sy'n ei ddirprwyo ymhellach i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol.<br>Cefnogir Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol gan y Pennaeth Gwasanaethau Busnes<br>Rhaid i'r cyfrifoldeb am waith galluogi a rhoi cyngor i'r Bwrdd neu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg beidio â chael ei dirprwyo i'r Pennaeth Cyllid. |

[3] h.y. cwblhau'r gwaith o baratoi'r Cynllun Blynyddol

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 4.2.4 | Cymeradwyo polisïau cyfrifyddu | Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd | Mae'r cyfrifoldeb am benderfynu ynghylch polisïau cyfrifyddu wedi'i gadw'n ôl i'r Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu hefyd<br>Bydd y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu'n cael eu cynghori gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| 4.3 | Adroddiadau | | |
| 4.3.1 | Paratoi[4] adroddiadau ar arfer swyddogaethau ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol | Wedi'i chadw'n ôl gan statud i'r Cadeirydd | Paragraff 3 Atodlen 2 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013<br>Ni ellir dirprwyo'r swyddogaeth hon, ond gall y Cadeirydd ofyn i aelodau eraill o'r Bwrdd gyfrannu i'r broses.<br>Cynghorir y Cadeirydd gan y Tîm Arwain Gweithredol.<br>Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid sy'n arwain y gwaith hwn gan gael ei gefnogi gan y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd |
| **5.** | **Gwaith trwy gytundeb** | | |
| 5.1 | Cynllunio gweithgarwch fel rhan o waith trwy gytundeb yn gyffredinol, gan gynnwys pennu'r adnoddau sy'n ofynnol. (Mae gweithgarwch fel rhan o waith trwy gytundeb yn golygu gwaith proffesiynol, technegol neu weinyddol sydd i gael ei wneud yn rhinwedd cytundeb dan adran 19 o Ddeddf 2013 neu ddarpariaethau statudol tebyg, yn hytrach nag yn uniongyrchol yn rhinwedd swyddogaeth statudol.) | Wedi'i dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio (gweler hefyd Gynllun Dirprwyo'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â gwaith trwy gytundeb) |
| 5.2 | Gwaith i sefydlu cytundebau ar gyfer darparu gwasanaethau gan Swyddfa Archwilio Cymru neu ei staff neu'r Archwilydd Cyffredinol | Wedi'i dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio |

[4] h.y. cwblhau'r gwaith o baratoi adroddiadau ar arfer swyddogaethau

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 5.3 | Cwblhau cytundebau â chost oes o:<br>(a) llai na £100,000<br>(b) £100,000 neu | (a) Wedi'i dirprwyo Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio<br>(b) Wedi'i dirprwyo i'r Bwrdd | Cynghorir y Bwrdd gan Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio<br>Gall yr Archwilydd Cyffredinol a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio lofnodi cytundebau yn unol â phenderfyniad gan y Bwrdd |
| 5.4 | Aseinio staff i waith trwy gytundeb a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru | Wedi'i dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio |
| **6.** | **Swyddogaethau eraill** | | |
| 6.1 | Penodi'r aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd | Yn dilyn cystadleuaeth agored ac ar gyngor y panel recriwtio, a gaiff ei gadeirio fel arfer gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| 6.2 | Penodi Ysgrifennydd y Bwrdd | Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei gapasiti fel Prif Weithredwr yn cyflwyno argymhelliad i'r Bwrdd |
| 6.3 | Dynodi Swyddog Diogelu Data Swyddfa Archwilio Cymru | Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd | Dan Erthygl 37 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data<br>(Fel arfer bydd y Bwrdd yn gwneud dynodiad ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol fel bod yr un unigolyn yn gweithredu fel y Swyddog Diogelu Data ar ran Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol) |
| 6.4 | Swyddogaethau eraill mewn perthynas â chyflogaeth nad ydynt wedi'u nodi mewn adrannau eraill o'r Cynllun hwn | Wedi'u dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaethau hyn i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a all eu dirprwyo ymhellach yn unol â strwythur a pholisïau Adnoddau Dynol Swyddfa Archwilio Cymru |
| 6.5 | Penodi, pennu unrhyw delerau ac amodau ychwanegol a therfynu neu | Wedi'i chadw'n ôl gan statud i aelodau anweithredol | Paragraffau 14 i 21 Atodlen 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | atal penodiad aelodau o'r Bwrdd sy'n gyflogeion | | Penodi "aelod penodedig" ar argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol<br>Penodi "aelodau etholedig" yn unol â phleidlais gan staff Swyddfa Archwilio Cymru |
| 6.6 | Paratoi ar y cyd[5], adolygu'n rheolaidd a diwygio fel y bo'n briodol y cod ymarfer sy'n ymdrin â'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol | Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd | Paragraff 1 Atodlen 2 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013<br>Caiff gwaith i alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r swyddogaeth hon ei ddirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr sy'n ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a gefnogir gan Ysgrifennydd y Bwrdd |
| 6.7 | Paratoi, amrywio neu ddirymu cynllun dirprwyo'r Bwrdd | Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd | Paragraff 32 Atodlen 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013<br>Caiff gwaith i alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r swyddogaeth hon ei ddirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr sy'n ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol<br>Cefnogir Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol gan Ysgrifennydd y Bwrdd y mae'n rhaid iddo/iddi ymgynghori â Phennaeth y Gyfraith a Moeseg |
| 6.8 | Paratoi rheolau gweithdrefnol y Bwrdd (gan gynnwys ar gyfer rheoleiddio gweithdrefn pwyllgorau) | Wedi'i chadw'n ôl gan statud i'r Bwrdd | Paragraffau 27 i 30 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013<br>Caiff gwaith i'w gwneud yn bosibl paratoi'r rheolau gweithdrefnol ei ddirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr sy'n ei ddirprwyo ymhellach i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol |

[5] h.y. cwblhau'r gwaith o baratoi'r Cod ar y Berthynas

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | | | a gefnogir gan Ysgrifennydd y Bwrdd |
| 6.9 | Dynodi rhywun i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol dros dro | Wedi'i chadw'n ôl gan statud i'r Bwrdd | Paragraff 5 Atodlen 2 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013<br>Rhaid i'r dynodiad ddigwydd gyda chytundeb y Senedd (y pwyllgor cyfrifol[6])<br>Caiff gwaith i alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r swyddogaeth hon ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol |
| 6.10 | Sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaethau cyfreithiol a osodir ar y Bwrdd ac eithrio trwy ddeddfwriaeth trethiant neu gyflogaeth, e.e. llywodraethu gwybodaeth, deddfwriaeth cydraddoldeb a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | Wedi'i dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol. Mae'r ddau'n ystyried barn y Tîm Arwain Gweithredol. (Gweler hefyd adran 6 o gynllun dirprwyo'r Archwilydd Cyffredinol, sy'n ymwneud â dyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu) |
| 6.11 | Penodi cadeiryddion ac aelodau pwyllgorau'r Bwrdd | Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd | Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn cefnogi'r Bwrdd gyda'r swyddogaeth hon |
| 6.12 | Gwaith i'w gwneud yn bosibl paratoi polisïau eraill y Bwrdd (megis y Cod Ymddygiad a'r polisi teithio a chynhaliaeth) | Wedi'i dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Cefnogir yr Archwilydd Cyffredinol gan Ysgrifennydd y Bwrdd |

[6] Mae'r Senedd wedi dynodi'r Pwyllgor Cyllid fel y pwyllgor cyfrifol mewn perthynas â goruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru

# Cynllun dirprwyo swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Cyflwyniad

1 Mae'r cynllun hwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer dirprwyo swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) ac fe'i gwneir dan adran 18 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Dim ond yn unol â chynllun a baratowyd gan yr Archwilydd Cyffredinol y gellir dirprwyo swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.

2 Ar gyfer cyd-destun, mae'r cynllun hefyd yn nodi swyddogaethau a gadwyd yn ôl i gael eu harfer gan yr Archwilydd Cyffredinol yn bersonol. I gael golwg gynhwysfawr ar drefniadau dirprwyo yn y sefydliad, dylid darllen y cynllun hwn ochr yn ochr â chynllun dirprwyo Swyddfa Archwilio Cymru (y Bwrdd), yn enwedig fel y mae'r cynllun hwnnw'n darparu ar gyfer:

- dirprwyo swyddogaethau penodol gan y Bwrdd i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr y sefydliad; a
- swyddogaethau archwilio a chyfrifyddu sy'n berthnasol i gyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru.

3 Gall yr Archwilydd Cyffredinol ddiwygio neu ddirymu ei gynllun dirprwyo ar unrhyw adeg, ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd. Ar ben hynny, ni waeth beth fo darpariaethau'r cynllun hwn, gall yr Archwilydd Cyffredinol arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau'n bersonol ar unrhyw adeg.

4 Er gwaethaf unrhyw drefniadau dirprwyo, yr Archwilydd Cyffredinol sy'n dal i fod yn bersonol gyfrifol am arfer ei swyddogaethau.

5 Mewn sefyllfaoedd lle mae'r Archwilydd Cyffredinol yn amharod neu'n analluog i gyflawni swyddogaethau ei swydd, gall y Bwrdd, gyda chytundeb y Senedd, ddynodi rhywun i arfer y swyddogaethau hynny dros dro yn unol â Rhan 3 Atodlen 2 Deddf 2013. Dan amgylchiadau o'r fath, bydd y cynllun hwn yn berthnasol fel pe bai wedi cael ei wneud gan yr unigolyn dynodedig a gall gael ei ddiwygio neu ei ddirymu gan yr unigolyn hwnnw, yn amodol ar y gofyniad statudol i ymgynghori â'r Bwrdd.

6 Mae'r adrannau nesaf o'r ddogfen hon yn darparu:

(a) crynodeb o swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol i ddarparu cyd-destun ar gyfer y rhestr ddirprwyo fanwl (a heb leihau effaith cynnwys y rhestr);

(b) yr amodau sy'n berthnasol i'r cynllun hwn;

(c) crynodeb o'r swyddogaethau a gadwyd yn ôl i'r Archwilydd Cyffredinol;

(d) rhestr fanwl o drefniadau dirprwyo.

## Swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol: trefniadau dirprwyo cyffredinol a swyddogaethau a gadwyd yn ôl

7 Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol gyfrifoldebau a swyddogaethau mewn perthynas â thair prif rôl:

a) ei rôl fel archwilydd, sy'n cynnwys—
   i. archwilio cyfrifon yn statudol;
   ii. archwiliadau a wneir trwy gytundeb;
   iii. archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian (er mwyn crynoder, mae'r term "astudiaeth" yn y ddogfen hon yn cyfeirio at archwiliadau ac astudiaethau);
   iv. ardystio hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau;
   v. arolygiadau arbennig a wneir dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 neu Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
   vi. paratoi cynllun dirprwyo ar gyfer arfer ei swyddogaethau;
   vii. paratoi cod ymarfer archwilio ar gyfer arfer ei swyddogaethau archwilio.

b) ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n cynnwys—
   i. cadw cyfrifon a chofnodion priodol o Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol;
   ii. paratoi datganiad o'r cyfrifon hynny;
   iii. cydymffurfio â chyfrifoldebau ychwanegol mewn perthynas â chyfrifon a chyllid Swyddfa Archwilio Cymru a nodir o bryd i'w gilydd gan y Senedd.

c) ei rôl fel Prif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw statud yn nodi'n benodol beth yw swyddogaethau'r Prif Weithredwr ond mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i swyddogaethau i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni rôl y Prif Weithredwr. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yng nghynllun dirprwyo Swyddfa Archwilio Cymru.

8 Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddisgresiwn llwyr o ran y modd y caiff swyddogaethau'r swydd honno eu harfer ac nid yw'n cael ei gyfarwyddo na'i reoli gan y Senedd na Llywodraeth Cymru. Ond mae'r disgresiwn hwn yn amodol ar ddyletswyddau i:

a) anelu at gyflawni ei swyddogaethau yn effeithlon ac yn gost-effeithiol;
b) rhoi sylw, fel y mae'n ystyried yn briodol, i'r safonau a'r egwyddorion y disgwylir i ddarparwr arbenigol proffesiynol mewn cyfrifyddiaeth neu wasanaethau archwilio eu dilyn;
c) rhoi sylw i gyngor a roddir iddo neu iddi gan y Bwrdd.

9 Mae'r Memorandwm Swyddog Cyfrifyddu a ddarperir gan y Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol wneud trefniadau ar gyfer dirprwyo ei swyddogaethau fel Swyddog Cyfrifyddu os na fydd ar gael dros dro. Mae'r trefniant dirprwyo hwnnw ar wahân i unrhyw drefniant i ddynodi Swyddog Cyfrifyddu dros

dro trwy gytundeb rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Phwyllgor Cyfrifol y Senedd dan baragraff 5 Atodlen 2 Deddf 2013[7] ac nid yw'n lleihau effaith trefniant o'r fath.

10 I sicrhau y cydymffurfir â Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol[8], mae angen i'r Archwilydd Cyffredinol beidio â chymryd unrhyw ran bersonol mewn archwiliad, neu broses i reoli archwiliad, o gorff y gwnaeth ddal swydd ynddo fel aelod o'r uwch dîm rheoli lle mae'r arweinydd ymrwymiad perthnasol yn penderfynu bod materion yn codi a allai gael eu dehongli fel eu bod neu y gellid meddwl eu bod yn arwain at wrthdaro buddiannau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fel person naturiol. Yn unol â hynny, mae Cynllun Dirprwyo'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried hyn mewn perthynas â Chomisiwn y Senedd trwy ddirprwyo swyddogaethau o'r fath, pe cyfyd yr amgylchiadau hynny, i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio. Yn yr un modd, i osgoi canfyddiadau am wrthdaro buddiannau, mae'r Cynllun yn gwneud trefniadau tebyg mewn perthynas â Chronfa Gyfunol Cymru (CGC).

11 Ac eithrio mewn perthynas â Chomisiwn y Senedd a CGC, a heblaw mewn achosion lle nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael dros dro, mae'r swyddogaethau canlynol wedi'u cadw'n ôl i gael eu harfer gan yr Archwilydd Cyffredinol:

a) penodi cyfarwyddwyr ymrwymiad;
b) rhoi awdurdodiad i gychwyn astudiaethau, arolygiadau arbennig ac ymarferion paru data;
c) penderfyniadau i osod adroddiadau a dogfennau eraill gan yr Archwilydd Cyffredinol gerbron y Senedd (nid yw hyn yn cynnwys penderfyniadau ynghylch amseriad gosod dogfennau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd i'w gosod).

12 Yn yr un modd, ac eithrio pan na yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael dros dro, caiff y swyddogaethau canlynol eu cadw'n ôl i gael eu harfer gan yr Archwilydd Cyffredinol hefyd:

a) lle nad oes darpariaeth berthnasol i osod (fel sy'n wir, er enghraifft, gyda mathau penodol o astudiaethau llywodraeth leol), cymeradwyo cyhoeddi adroddiadau ar astudiaethau, adroddiadau ar arolygiadau arbennig, adroddiadau dan Fesur 2009 ac adroddiadau paru data;

[7] Mae'r trefniadau a gaiff eu gwneud gan yr Archwilydd Cyffredinol i gydymffurfio â'r Memorandwm yn rhai i ddarparu ar gyfer diffyg argaeledd dros dro arferol, megis oherwydd salwch neu wyliau blynyddol. Gall trefniadau dan baragraff 5 Atodlen 2 Deddf 2013 gael eu gwneud dim ond lle mae swydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dod yn wag, lle mae deiliad y swydd yn amharod i gyflawni swyddogaethau'r swydd, neu os yw Swyddfa Archwilio Cymru a'r Senedd o'r farn bod deiliad y swydd naill ai'n analluog i gyflawni swyddogaethau'r swydd neu o'r farn bod sail i ddiswyddo oherwydd camymddwyn.

[8] Gall y Cyngor Adrodd Ariannol gael ei ddisodli gan yr Awdurdod Archwilio, Adrodd a Llywodraethu (ARGA). Dylid darllen cyfeiriadau at y Cyngor (neu FRC) yn unol â hynny.

b) awdurdodi cyhoeddi cod ymarfer archwilio, cod ymarfer paru data a dogfennau corfforaethol eraill y mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol eu paratoi dan statud;
c) llofnodi datganiad cyfrifon a datganiad llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru;
d) ymddangos fel Swyddog Cyfrifyddu gerbron Pwyllgor Cyfrifol y Senedd;
e) sicrhau bod gweithdrefnau ariannol priodol yn cael eu sefydlu'r briodol, diogelu adnoddau cyhoeddus a darparu gwybodaeth reoli ddigonol, gan gynnwys rhoi sylw i gyngor gan y tîm Archwilio Mewnol;
f) paratoi'r Cynllun Blynyddol, y Cod ar y Berthynas, Amcangyfrif ac adroddiadau ar arfer swyddogaethau (adroddiadau cynnydd) ar y cyd.

13 Dan adran 18 o Ddeddf 2013, ni all y cyfrifoldeb am baratoi cynllun ar gyfer dirprwyo swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol gael ei ddirprwyo. Yn yr un modd, ni all y cyfrifoldeb am ddarparu barn yr Archwilydd Cyffredinol fel "Person Perthnasol" dan adran 36 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 gael ei ddirprwyo'n gyfreithlon.

## Amodau dirprwyo

14 Mae'r trefniadau dirprwyo a wneir yn y cynllun hwn yn amodol ar y canlynol:

(a) rhaid i bersonau sy'n arfer swyddogaethau dirprwyedig anelu at gyflawni'r swyddogaethau hynny yn effeithlon ac yn gost-effeithiol, a chan roi sylw i safonau proffesiynol ac unrhyw gyngor a roddir gan y Bwrdd (fel sy'n ofynnol gan adran 8 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013);

(b) rhaid i'r holl swyddogaethau dirprwyedig gael eu harfer yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Swyddfa Archwilio Cymru, y Cod Ymarfer Archwilio[9] a chanllawiau'r Archwilydd Cyffredinol;

(c) cyn arfer unrhyw swyddogaeth ddirprwyedig, rhaid i'r sawl sy'n arfer y swyddogaeth gynnal ymgyngoriadau priodol, er enghraifft, â'r Pennaeth Cyllid mewn perthynas ag unrhyw oblygiadau sylweddol o ran adnoddau;

(d) rhaid peidio ag arfer swyddogaethau dirprwyedig mewn modd sy'n debygol o fod yn achos pryder cyhoeddus;

(e) ac eithrio lle mae'r rhestr yn dynodi na all swyddogaeth gael ei dirprwyo neu gael ei dirprwyo ymhellach, caniateir dirprwyo pellach ar yr amod y cofnodir y trefniant dirprwyo hwnnw'n ysgrifenedig.

[9] Pan ydynt yn cael eu cymryd ymlaen gan Swyddfa Archwilio Cymru mae'n ofynnol i'r holl staff a chontractwyr ddarparu hysbysiad ysgrifenedig (trwy lofnodi ffurflen) i ddangos eu bod yn cytuno i gydymffurfio â'r Cod (fel sy'n ofynnol gan adran 18(4) Deddf 2013). Mae hysbysiadau bellach yn cael eu hailgadarnhau fel rhan o ymarfer y ffurflen annibyniaeth flynyddol.

## Rhestr fanwl o drefniadau dirprwyo

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| **1.** | **Archwilio a.y.b. cyrff cyhoeddus** | | |
| 1.1 | Cynllunio gweithgarwch archwilio ar y cyfan, gan gynnwys yn arbennig pennu cyfanswm yr adnoddau sy'n ofynnol | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio.[10] | Mae gweithgarwch archwilio'n cynnwys:<br>• archwilio cyfrifon, gan gynnwys gwaith cysylltiedig ychwanegol megis gwaith i ateb y gofyniad bod yr Archwilydd Cyffredinol yn ei argyhoeddi'i hun bod y corff a archwilir wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ("y casgliad Gwerth Am Arian")<br>• archwiliadau ac astudiaethau Gwerth Am Arian<br>• archwiliadau datblygu cynaliadwy<br>• archwiliad gwella, asesiad ac arolygiad arbennig llywodraeth leol ("gwaith dan Fesur 2009") – a ddisodlwyd o 2020-21 gan arolygiadau arbennig dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac eithrio ar gyfer awdurdodau tân ac achub<br>• ardystio hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau a.y.b. (dan baragraff 20 Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006)<br>• paru data<br>• gwaith trwy gytundeb<br>I sicrhau y cydymffurfir â Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, lle mae'r arweinydd ymrwymiad perthnasol yn penderfynu bod materion yn codi a allai gael eu dehongli fel eu bod neu y gellid meddwl eu bod yn arwain at wrthdaro buddiannau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fel person naturiol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cymryd unrhyw ran bersonol yn y broses o arfer y swyddogaethau hyn mewn |

[10] yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gweithredol, y cyfarwyddwr sydd wedi dal cymhwyster CCAB am y cyfnod hiraf sydd ar gael

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | | | perthynas â Chomisiwn y Senedd na Chronfa Gyfunol Cymru. |
| 1.2 | Aseinio cyfarwyddwr ymrwymiad i gorff a archwilir, ac eithrio Comisiwn y Senedd neu CGC | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio.[12] | Dim ond pan nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael oherwydd gwyliau neu salwch dros dro y mae'r trefniant dirprwyo hwn yn berthnasol. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cael ei gynghori gan Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio. |
| 1.3 | Aseinio cyfarwyddwr ymrwymiad i Gomisiwn y Senedd neu CGC | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio.[13] | I sicrhau y cydymffurfir â'r Safon Foesegol, lle mae'r arweinydd ymrwymiad perthnasol yn penderfynu bod materion yn codi a allai gael eu dehongli fel eu bod neu y gellid meddwl eu bod yn arwain at wrthdaro buddiannau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fel person naturiol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cymryd unrhyw ran bersonol yn y broses o arfer y swyddogaeth hon. |
| 1.4 | Aseinio arweinwyr ymrwymiad, staff a chontractwyr i brosiectau archwilio | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio, ac yn ei dro i'r Cyfarwyddwr Busnes perthnasol.[14] | Mae Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio'n ymgynghori â Thîm y Cyfarwyddwyr mewn perthynas ag aseinio rheolwyr archwilio<br>Mae Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio'n dirprwyo ymhellach i'r Cyfarwyddwr Busnes mewn perthynas ag aseinio aelodau eraill o staff Swyddfa Archwilio Cymru a chontractwyr<br>I sicrhau y cydymffurfir â Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, lle mae'r arweinydd ymrwymiad perthnasol yn penderfynu bod materion yn codi a allai gael eu dehongli fel eu bod neu y gellid meddwl eu bod yn arwain at wrthdaro |

[12] yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gweithredol, y cyfarwyddwr sydd wedi dal cymhwyster CCAB am y cyfnod hiraf sydd ar gael

[13] yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gweithredol, y cyfarwyddwr sydd wedi dal cymhwyster CCAB am y cyfnod hiraf sydd ar gael

[14] yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gweithredol, y cyfarwyddwr sydd wedi dal cymhwyster CCAB am y cyfnod hiraf sydd ar gael

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | | | buddiannau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fel person naturiol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cymryd unrhyw ran bersonol yn y broses o arfer y swyddogaethau hyn mewn perthynas â Chomisiwn y Senedd na CGC. |
| 1.5 | Cymeradwyo cychwyn archwiliad eithriadol dan a37 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (hefyd cymeradwyo cyhoeddi adroddiad ar archwiliad o'r fath) | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio, neu yn ei (h)absenoldeb, i'r arweinydd Ymrwymiad | Dim ond pan nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael oherwydd gwyliau neu salwch dros dro y mae'r trefniant dirprwyo hwn yn berthnasol. |
| 1.6 | Cynllunio a gweithredu prosiectau archwilio | Wedi'i dirprwyo i'r arweinydd Ymrwymiad a aseiniwyd dan 1.4 | Arweinydd Ymrwymiad i ddirprwyo gwaith archwilio ymhellach i staff a aseiniwyd i'r prosiect archwilio |
| 1.7 | Cynllunio a gweithredu gwaith trefniadau priodol | Wedi'i dirprwyo i'r arweinydd Ymrwymiad a aseiniwyd dan 1.4 | Arweinydd Ymrwymiad i ddirprwyo gwaith archwilio ymhellach i staff a aseiniwyd i'r prosiect archwilio |
| 1.8 | Cydlynu gwaith archwilio mewn corff a archwilir, gan gynnwys gwasanaethu fel y prif ddolen gyswllt gyda'r corff hwnnw | Wedi'i dirprwyo i'r cyfarwyddwr Ymrwymiad a aseiniwyd dan 1.2 neu 1.3 | Rhaid i'r Cyfarwyddwr Ymrwymiad ymgynghori â'r arweinydd/arweinwyr ymrwymiad perthnasol ynghylch y mater hwn |
| 1.9 | Llofnodi barnau archwilio ar gyfrifon sy'n mynd i gael eu gosod, a chymeradwyo gosod adroddiadau er budd y cyhoedd dan baragraff 19 atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n deillio o archwilio cyfrifon | Wedi'i dirprwyo i'r arweinydd Ymrwymiad a aseiniwyd dan 1.4 | I sicrhau y cydymffurfir â Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, lle mae'r Arweinydd Ymrwymiad yn penderfynu bod materion yn codi a allai gael eu dehongli fel eu bod neu y gellid meddwl eu bod yn arwain at wrthdaro buddiannau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fel person naturiol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cymryd unrhyw ran bersonol yn y broses o arfer y swyddogaethau hyn mewn perthynas â Chomisiwn y Senedd na CGC.<br>Ar gyfer yr holl gyfrifon eraill, dim ond pan nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael oherwydd gwyliau neu salwch dros dro y mae'r trefniant dirprwyo hwn yn berthnasol<br>Mae'n ofynnol i arweinwyr Ymrwymiad hysbysu Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio a'r Archwilydd Cyffredinol yn rheolaidd ynghylch cynnydd gyda materion archwilio penodol |

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.10 | Llofnodi barnau archwilio ar gyfrifon Prif Awdurdodau, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu/Prif Gwnstabliaid<br>Hefyd, mewn perthynas ag Awdurdodau o'r fath lle y bo'n berthnasol:<br>• cymeradwyo cyhoeddi adroddiad ar unwaith neu adroddiad arall er budd y cyhoedd dan a22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 neu baragraff 19 Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006<br>• rhoi'r cyfle i etholwyr (a'u cynrychiolwyr) gwestiynu'r Archwilydd Cyffredinol am y cyfrifon (a30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004)<br>• cais am ddatganiad bod eitem yn y cyfrifon yn groes i'r gyfraith dan a32 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, hysbysu ynghylch penderfyniad i beidio â cheisio datganiad o'r fath a darparu datganiad o resymau dros beidio â cheisio datganiad<br>• cyhoeddi hysbysiad cynghori dan a33 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, darparu datganiad o resymau dros hysbysiadau o'r fath, tynnu hysbysiadau o'r fath yn ôl a rhoi rhybudd o hynny<br>• hawliad am adolygiad barnwrol dan a36 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio neu, yn ei (h)absenoldeb, i'r arweinydd Ymrwymiad perthnasol a aseiniwyd dan 1.4 | Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio neu, yn ei (h)absenoldeb, yr arweinydd Ymrwymiad, hysbysu'r Archwilydd Cyffredinol yn rheolaidd ynghylch cynnydd gyda materion archwilio penodol |

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.11 | Llofnodi barnau archwilio nad ydynt yn mynd i gael eu gosod gerbron ac nad ydynt ychwaith wedi'u cynnwys yn 1.10. (Felly mae'r trefniant dirprwyo hwn yn cwmpasu, er enghraifft, gynghorau cymuned ac archwiliadau trwy cytundeb.).<br>Hefyd, mewn perthynas â chyrff o'r fath, rhoi cyfle i etholwyr (a'u cynrychiolwyr) gwestiynu'r Archwilydd Cyffredinol am y cyfrifon (a30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004) | Wedi'i dirprwyo i'r arweinydd Ymrwymiad a aseiniwyd dan 1.4 | Gall ateb cwestiynau i'r Archwilydd Cyffredinol am y cyfrifon gael ei ddirprwyo ymhellach i reolwyr perthnasol |
| 1.12 | Mewn perthynas â chyrff llywodraeth leol nad ydynt wedi'u cynnwys yn 1.10 (e.e. cynghorau cymuned ac archwiliadau trwy gytundeb):<br>• cymeradwyo cyhoeddi adroddiad ar unwaith neu adroddiad arall er budd y cyhoedd dan a22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<br>• cais am ddatganiad bod eitem yn y cyfrifon yn groes i'r gyfraith dan a32 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, hysbysu ynghylch penderfyniad i beidio â cheisio datganiad o'r fath a darparu datganiad o resymau dros beidio â cheisio datganiad<br>• cyhoeddi hysbysiadau cynghori dan a33 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, darparu datganiad o resymau dros hysbysiadau o'r fath, tynnu hysbysiadau o'r fath yn ôl a rhoi rhybudd o hynny<br>• hawliad am adolygiad barnwrol dan a36 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio, neu yn ei (h)absenoldeb, yr arweinydd Ymrwymiad perthnasol a aseiniwyd dan 1.4 | |
| 1.13 | Gohebiaeth yr Archwilydd Cyffredinol (gohebiaeth sy'n | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol | Mae Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio'n dirprwyo'r |

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | gysylltiedig ag archwiliadau) (nid yw'n cynnwys eitemau sy'n amlwg yn perthyn i 4.3 isod) | y Gwasanaethau Archwilio, neu yn ei (h)absenoldeb, yr arweinydd Ymrwymiad perthnasol a aseiniwyd dan 1.4 | swyddogaeth hon ymhellach i'r cyfarwyddwyr ymrwymiad.<br>I sicrhau y cydymffurfir â Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, lle mae'r Arweinydd Ymrwymiad yn penderfynu bod materion yn codi a allai gael eu dehongli fel eu bod neu y gellid meddwl eu bod yn arwain at wrthdaro buddiannau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fel person naturiol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cymryd unrhyw ran bersonol yn y broses o arfer y swyddogaethau hyn mewn perthynas â Chomisiwn y Senedd na CGC. |
| 1.14 | Datblygu cynnig ar gyfer astudiaeth (h.y. dogfen cychwyn prosiect) | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio, neu yn ei (h)absenoldeb, yr arweinydd Ymrwymiad perthnasol a aseiniwyd dan 1.4 | Mae Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio'n dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r arweinydd ymrwymiad a benodwyd i'r astudiaeth<br>I sicrhau y cydymffurfir â Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, lle mae'r Arweinydd Ymrwymiad yn penderfynu bod materion yn codi a allai gael eu dehongli fel eu bod neu y gellid meddwl eu bod yn arwain at wrthdaro buddiannau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fel person naturiol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cymryd unrhyw ran bersonol yn y broses o arfer y swyddogaethau hyn mewn perthynas â Chomisiwn y Senedd na CGC. |
| 1.15 | Ac eithrio mewn perthynas â Chomisiwn y Senedd neu CGC, cymeradwyo cynnig ar gyfer astudiaeth ac awdurdodi ei chychwyn | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio neu, yn ei (h)absenoldeb, yr arweinydd Ymrwymiad | Dim ond pan nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael oherwydd gwyliau neu salwch dros dro y mae'r trefniant dirprwyo hwn yn berthnasol |

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.16 | Cymeradwyo cynnig ar gyfer astudiaeth o Gomisiwn y Senedd neu CGC, ac awdurdodi ei chychwyn | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio neu, yn ei (h)absenoldeb, yr arweinydd Ymrwymiad | I sicrhau y cydymffurfir â'r Safon Foesegol, lle mae'r Arweinydd Ymrwymiad yn penderfynu bod materion yn codi a allai gael eu dehongli fel eu bod neu y gellid meddwl eu bod yn arwain at wrthdaro buddiannau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fel person naturiol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cymryd unrhyw ran bersonol yn y broses o arfer y swyddogaethau hyn |
| 1.17 | Ac eithrio mewn perthynas â Chomisiwn y Senedd neu CGC, gosod adroddiad ar astudiaeth neu awdurdodi ei gyhoeddi fel arall | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio neu, yn ei (h)absenoldeb, yr arweinydd Ymrwymiad | Dim ond pan nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael oherwydd gwyliau neu salwch dros dro y mae'r trefniant dirprwyo hwn yn berthnasol |
| 1.18 | Gosod adroddiad ar astudiaeth mewn perthynas â Chomisiwn y Senedd neu CGC neu awdurdodi ei gyhoeddi fel arall | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio neu, yn ei (h)absenoldeb, yr arweinydd Ymrwymiad | I sicrhau y cydymffurfir â'r Safon Foesegol, lle mae'r Arweinydd Ymrwymiad yn penderfynu bod materion yn codi a allai gael eu dehongli fel eu bod neu y gellid meddwl eu bod yn arwain at wrthdaro buddiannau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fel person naturiol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cymryd unrhyw ran bersonol yn y broses o arfer y swyddogaethau hyn |
| 1.19 | Cynllunio a gweithredu gwaith dan Fesur 2009 (yn amodol ar 1.20 ac 1.21 isod) | Wedi'i dirprwyo i'r Arweinydd Ymrwymiad a aseiniwyd dan 1.4 | Arweinydd Ymrwymiad i ddirprwyo ymhellach i staff a aseiniwyd i'r gwaith |
| 1.20 | Awdurdodi cychwyn arolygiad arbennig dan a21 o Fesur 2009 neu dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio neu, yn ei (h)absenoldeb, yr arweinydd Ymrwymiad | Dim ond pan nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael oherwydd gwyliau neu salwch dros dro y mae'r trefniant dirprwyo hwn yn berthnasol |
| 1.21 | Awdurdodi cyhoeddi adroddiadau ar waith dan Fesur 2009 neu dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio ac, yn ei dro, yr arweinydd Ymrwymiad | Dim ond pan nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael oherwydd gwyliau neu salwch dros dro y mae'r trefniant dirprwyo hwn yn berthnasol |
| 1.22 | Llofnodi tystysgrif hawliad am grant | Wedi'i dirprwyo i'r Arweinydd Ymrwymiad | Caiff y gwaith o lofnodi hawliadau am grantiau ei ddirprwyo ymhellach i reolwyr archwilio fel arfer |

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | | Ardystio a a aseiniwyd dan 1.4 | |
| 1.23 | Paru Data | | |
| 1.23.1 | Aseinio arweinydd ymrwymiad i baratoi Cod Ymarfer Paru Data | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio neu, yn ei (h)absenoldeb, y Tîm Arwain Gweithredol | Dim ond pan nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael oherwydd gwyliau neu salwch dros dro y mae'r trefniant dirprwyo hwn yn berthnasol |
| 1.23.2 | Aseinio staff i baratoi Cod Ymarfer Paru Data | Wedi'i dirprwyo i Arweinydd Ymrwymiad a aseiniwyd dan 1.23.1 | |
| 1.23.3 | Cymeradwyo a chyhoeddi Cod Ymarfer Paru Data | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio neu, yn ei (h)absenoldeb, yr arweinydd Ymrwymiad dan 1.23.1 | Dim ond pan nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael oherwydd gwyliau neu salwch dros dro y mae'r trefniant dirprwyo hwn yn berthnasol |
| 1.23.4 | Awdurdodi cychwyn ymarfer paru data | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio neu, yn ei (h)absenoldeb, yr arweinydd Ymrwymiad | |
| 1.23.5 | Awdurdodi cyhoeddi adroddiad ar ymarfer paru data | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio neu, yn ei (h)absenoldeb, yr arweinydd Ymrwymiad | |
| **2.** | **Rheoli Cronfa Gyfunol Cymru** | | |
| 2.1 | Cymeradwyaethau i dynnu i lawr o Gronfa Gyfunol Cymru | Wedi'i dirprwyo i staff a awdurdodwyd yn benodol gan yr Archwilydd Cyffredinol i gymeradwyo ceisiadau i dynnu i lawr (fel a nodir yng nghofnodion Cronfa Gyfunol Cymru) | Ni ellir ei dirprwyo ymhellach heb gymeradwyaeth benodol yr Archwilydd Cyffredinol |
| 2.2 | Cynnal cofnod canolog o dyniadau awdurdodedig o Gronfa Gyfunol Cymru | Wedi'i dirprwyo i staff a awdurdodwyd yn benodol gan yr Archwilydd Cyffredinol i gymeradwyo ceisiadau i dynnu i lawr (fel a nodir yng | Ni ellir ei dirprwyo ymhellach heb gymeradwyaeth benodol yr Archwilydd Cyffredinol |

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | | nghofnodion Cronfa Gyfunol Cymru) | |
| **3.** | **Cyhoeddi cod ymarfer archwilio, canllaw technegol, ansawdd a moeseg broffesiynol** | | |
| 3.1 | Paratoi a diwygio cod ymarfer archwilio | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio | Gwaith paratoi a diwygio wedi'i ddirprwyo ymhellach i gyfarwyddwyr a rheolwyr eraill |
| 3.2 | Ymgynghori ynghylch cod ymarfer archwilio neu ddiwygiad ohono ac awdurdodi ei gyhoeddi | Wedi'i gadw'n ôl i'r Archwilydd Cyffredinol ac eithrio pan nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael oherwydd gwyliau estynedig neu salwch | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a hwythau'n gweithredu ar y cyd pan nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael oherwydd gwyliau estynedig neu salwch |
| 3.3 | Cyhoeddi canllawiau technegol ar gymhwyso'r cod ymarfer archwilio | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio | Mae Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio'n dirprwyo ymhellach i gyfarwyddwyr a rheolwyr |
| 3.4 | Sefydlu system o reoli ansawdd yn unol â safonau rheoli ansawdd a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio | Rhaid i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio ddirprwyo ymhellach i reolwr neu gyfarwyddwr heb unrhyw gyfrifoldebau a allai wrthdaro â'r gwaith hwn.<br>Mae'r gwaith ansawdd yn cael ei fonitro a rhoddir cyngor yn ei gylch gan Bwyllgor Ansawdd Archwilio, sy'n cynnwys Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Corfforaethol.<br>Bydd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Corfforaethol yn paratoi adroddiad blynyddol i'r Archwilydd Cyffredinol a'r Bwrdd ar effeithiolrwydd y trefniadau hynny ac ar ddigonolrwydd adnoddau a neilltuir i drefniadau ansawdd archwilio. Gall gwaith paratoi gael ei ddirprwyo i staff neu gontractau heb unrhyw gyfrifoldebau a allai wrthdaro â'r gwaith hwn.<br>Gweler hefyd eitem 3.6 – Swyddogaeth Foeseg – sydd â |

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | | | pherthnasedd arwyddocaol i ansawdd. |
| 3.5 | Cymeradwyo archwilwyr ar gyfer penodi i gwmnïau cludiant cyhoeddus a chwmnïau maes awr cyhoeddus a reolir gan awdurdodau lleol yn unol ag Adran 76 Deddf Trafnidiaeth 1985 ac Adran 22(5) Deddf Meysydd Awyr 1986 | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio | Mae Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio'n dirprwyo ymhellach i gyfarwyddwyr a rheolwyr |
| 3.6 | Gweithredu Swyddogaeth Foeseg fel sy'n ofynnol gan Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol | Wedi'i dirprwyo ymhellach i dîm y Gyfraith a Moeseg |
| **4.** | **Swyddogaethau atodol a.y.b.** | | |
| 4.1 | Aseinio arweinydd ymrwymiad ar gyfer y Gyfnewidfa Arfer Da (GPX) | Wedi'i dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid neu, yn ei (h)absenoldeb, i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio | |
| 4.2 | Cynllunio a rheoli gwaith y Gyfnewidfa Arfer Da ar y cyfan | Wedi'i dirprwyo i'r arweinydd ymrwymiad a aseiniwyd dan 4.1 | |
| 4.3 | Ymdrin â chwynion sy'n ymwneud ag arfer (neu fel arall) swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol. Ymdrin â datgeliadau o gamwedd gan weithwyr Swyddfa Archwilio Cymru a phryderon ynghylch cydymffurfio â'r Safon Foesegol ("Chwythu'r Chwiban yn Fewnol") | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ac, yn ei dro, Pennaeth y Gyfraith a Moeseg | Cefnogir Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol gan Bennaeth y Gyfraith a Moeseg |
| 4.4 | Cael datgeliadau gan unrhyw weithwyr (h.y. yn enwedig gweithwyr y tu allan i Archwilio Cymru) am faterion y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn "Berson Rhagnodedig" ar eu cyfer dan reoliadau Chwythu'r Chwiban ("Chwythu'r Chwiban yn Allanol") | Wedi'i dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid ac, yn ei dro, y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd | Cefnogir y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid gan y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd |
| 4.5 | Gwaith cyfathrebu mewn perthynas â swyddogaethau'r | Wedi'i dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid ac, | Cefnogir y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid gan y Pennaeth Cyfathrebu |

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw’n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | Archwilydd Cyffredinol (e.e. hysbysiadau i’r wasg) | yn ei dro, y Pennaeth Cyfathrebu | |
| 4.6 | Sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaethau cyfreithiol a osodwyd ar yr Archwilydd Cyffredinol ac eithrio gan ddeddfwriaeth archwilio.<br>Er enghraifft: gwaith atal gwyngalchu arian, gwaith llywodraethu gwybodaeth a chydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb | Wedi’i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ac, yn ei dro, Pennaeth y Gyfraith a Moeseg | Cefnogir Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol gan Bennaeth y Gyfraith a Moeseg mewn perthynas â rhoi trefniadau ar waith. Mae’r ddau’n ystyried barn y Tîm Arwain Gweithredol. Rheolwyr a staff sy’n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir o ddydd i ddydd |
| 4.7 | Darparu barn yr Archwilydd Cyffredinol fel “Person Perthnasol” ar gyfer a36 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 | Wedi’i chadw’n ôl i’r Archwilydd Cyffredinol | (Ni chaniateir dirprwyo gan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000) |
| **5** | **Swyddogaethau eraill** | | |
| 5.1 | Paratoi’r[15] Cynllun Blynyddol ar y cyd â’r Bwrdd | Wedi’i dirprwyo i’r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid ac, yn ei dro, y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd | Dim ond pan nad yw’r Archwilydd Cyffredinol ar gael oherwydd gwyliau neu salwch y mae’r trefniant dirprwyo hwn ar gyfer paratoi ar y cyd yn berthnasol. Ond beth bynnag mae’r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo gwaith tanategol i baratoi’r cynllun blynyddol i’r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid a’r Pennaeth Cynllunio ac Adrodd y mae’n rhaid iddynt ystyried barn y Tîm Arwain Gweithredol |
| 5.2 | Paratoi’r[16] cod ar y berthynas ar y cyd â’r Bwrdd | Wedi’i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ac, yn ei | Dim ond pan nad yw’r Archwilydd Cyffredinol ar gael oherwydd gwyliau neu salwch y mae’r trefniant dirprwyo hwn ar gyfer paratoi ar y cyd yn berthnasol. Ond beth bynnag mae’r |

[15] h.y. cwblhau’r gwaith o baratoi’r Cynllun Blynyddol

[16] h.y. cwblhau’r gwaith o baratoi’r Cod ar y Berthynas

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | | dro, Ysgrifennydd y Bwrdd | Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo gwaith tanategol i baratoi'r Cod ar y Berthynas i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ac Ysgrifennydd y Bwrdd y mae'n rhaid iddynt ymgynghori â Phennaeth y Gyfraith a Moeseg |
| 5.3 | Paratoi'r[17] Amcangyfrif ar y cyd gyda'r Bwrdd | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ac, yn ei dro, y Pennaeth Cyllid | Dim ond pan nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael oherwydd gwyliau neu salwch y mae'r trefniant dirprwyo hwn ar gyfer paratoi ar y cyd yn berthnasol. Ond beth bynnag mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo gwaith tanategol i baratoi'r amcangyfrif i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Cyllid y mae'n rhaid iddynt ystyried barn y Tîm Arwain Gweithredol |
| 5.4 | Paratoi[18] adroddiadau ar arfer swyddogaethau (gan gynnwys o ran cysondeb â'r Cynllun Blynyddol) ar y cyd â Chadeirydd y Bwrdd | Wedi'i dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid ac, yn ei dro, y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd | Dim ond pan nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael oherwydd gwyliau neu salwch y mae'r trefniant dirprwyo hwn ar gyfer paratoi ar y cyd yn berthnasol. Ond beth bynnag mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo gwaith tanategol i baratoi adroddiadau i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid a'r Pennaeth Cynllunio ac Adrodd sy'n ystyried barn y Tîm Arwain Gweithredol |
| 5.5 | Paratoi cynllun dirprwyo'r Archwilydd Cyffredinol | Wedi'i chadw'n ôl gan statud i'r Archwilydd Cyffredinol | Wrth baratoi neu ddiwygio cynllun rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â'r Bwrdd (a18(7) o Ddeddf 2013)<br>Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo gwaith tanategol i baratoi ei gynllun dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a gefnogir gan Bennaeth y Gyfraith a Moeseg |
| 5.6 | Enwebu aelod o staff fel yr aelod o'r Bwrdd sy'n gyflogai a | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol | Dim ond pan nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael oherwydd gwyliau |

[17] h.y. cwblhau'r gwaith o baratoi'r Amcangyfrif

[18] h.y. cwblhau'r gwaith o baratoi adroddiadau ar arfer swyddogaethau

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | enwebwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol | y Gwasanaethau Archwilio neu, yn ei (h)absenoldeb, y Tîm Arwain Gweithredol | neu salwch dros dro a phan fo lle'r cyflogai a enwebwyd yn wag y mae'r trefniant dirprwyo hwn yn berthnasol<br>Bydd yr Archwilydd Cyffredinol neu, yn ei (h)absenoldeb, Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio neu, yn ei dro, y Tîm Arwain Gweithredol, yn ystyried cyngor y Bwrdd wrth wneud enwebiad o'r fath |
| **6.** | **Rôl Swyddog Cyfrifyddu (i'w ddarllen ar y cyd ag adran 6 o gynllun Swyddfa Archwilio Cymru)** | | |
| 6.1 | Sicrhau safonau rheolaeth ariannol uchel yn Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys sicrhau bod systemau a gweithdrefnau ariannol yn rhoi hwb i gynnal busnes yn effeithlon ac yn ddarbodus a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra, a bod ystyriaethau ariannol yn cael sylw llawn mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol | Mae'n cynnwys yn arbennig sicrhau (a) bod adnoddau Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu rheoli a'u diogelu'n dda, (b) bod peirianwaith digonol yn bodoli i gasglu'r holl incwm a derbyniadau a rhoi cyfrif amdanynt ac (c) bod ystyriaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru i gynigion sy'n ymwneud ag adnoddau Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi sylw i'r holl ystyriaethau ariannol perthnasol, gan gynnwys canllawiau'r Trysorlys ynghylch gwerth am arian, rheoleidd-dra, priodoldeb, dichonolrwydd a chynaliadwyedd |
| 6.2 | Sicrhau y cydymffurfir â gofynion y Senedd o ran rheoli gwariant - yn enwedig rheoleidd-dra | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol.[19] | |
| 6.3 | Pennu a chyfleu gweithdrefnau ariannol priodol, a chynnal trefniadau i fonitro cydymffurfiaeth | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol.[20] | |
| 6.4 | Rhoi cyngor i Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch materion sy'n ymwneud â rheoleidd-dra a phriodoldeb<br>(a) Mewn perthynas â swyddogaethau corfforaethol | (a) Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol.[21]<br>(b) Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr | |

[19] yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gweithredol, y cyfarwyddwr sydd wedi dal cymhwyster CCAB am y cyfnod hiraf sydd ar gael

[20] yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gweithredol, y cyfarwyddwr sydd wedi dal cymhwyster CCAB am y cyfnod hiraf sydd ar gael

[21] yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gweithredol, y cyfarwyddwr sydd wedi dal cymhwyster CCAB am y cyfnod hiraf sydd ar gael

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | (b) Mewn perthynas â swyddogaethau archwilio | Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio[22] | |
| 6.5 | Gwrthwynebiadau i gynigion Swyddfa Archwilio Cymru i weithredu mewn modd sy'n tramgwyddo ar ofynion sy'n ymwneud â phriodoldeb neu reoleidd-dra<br>Ceisio cyfarwyddyd ysgrifenedig gan Swyddfa Archwilio Cymru a hysbysu'r Pwyllgor Perthnasol yn y Senedd os yw Swyddfa Archwilio Cymru yn bwrw ymlaen â'r cam gweithredu arfaethedig er gwaethaf hynny | Wedi'i chadw'n ôl i'r Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu, ac eithrio os nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael dros dro, ac os felly caiff ei dirprwyo i'r Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro (gweler 6.19 isod) | |
| 6.6 | Ymddangos gerbron Pwyllgor Cyfrifol y Senedd i roi tystiolaeth ar gyfrifon a chyllid Swyddfa Archwilio Cymru ac ar adroddiadau archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru | Wedi'i chadw'n ôl i'r Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu, ac eithrio os nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael dros dro, ac os felly caiff ei dirprwyo i'r Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro (gweler 6.19 isod) | |
| 6.7 | Sicrhau y sefydlir trefniadau priodol ar gyfer rhoi gwybod yn uniongyrchol i Gadeirydd Pwyllgor Cyfrifol y Senedd ynghylch camymddwyn neu fethiant i gydymffurfio â thelerau penodiad ar ran aelodau o Swyddfa Archwilio Cymru | Wedi'i chadw'n ôl i'r Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu, ac eithrio os nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael dros dro, ac os felly caiff ei dirprwyo i'r Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro (gweler 6.19 isod) | |
| 6.8 | Sicrhau y defnyddir technegau rheoli rhaglenni a phrosiectau o ansawdd da i arfer swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru a swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol:<br>(a) Mewn perthynas â swyddogaethau | (a) Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol[23]<br>(b) Wedi'i dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid | Cyfarwyddwyr i ystyried cyngor gan y Tîm Arwain Gweithredol |

[22] yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gweithredol, y cyfarwyddwr sydd wedi dal cymhwyster CCAB am y cyfnod hiraf sydd ar gael

[23] yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gweithredol, cyfarwyddwr a enwebwyd gan y Tîm Arwain Gweithredol

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | corfforaethol ac eithrio cyfathrebu a chynllunio ac adrodd corfforaethol<br>(b) Mewn perthynas â chyfathrebu a chynllunio ac adrodd corfforaethol<br>(c) Mewn perthynas â swyddogaethau archwilio | (c) Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio.[24] | |
| 6.9 | Sicrhau trefniadau priodol ar gyfer rheoli cyfleoedd a risgiau, a chynnal trefniadau i fonitro cydymffurfiaeth | Wedi'i dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid neu, yn ei (h)absenoldeb, i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol | Mae'n cynnwys cynnal cofrestr(au) risgiau corfforaethol |
| 6.10 | Datblygu, cynnal a gweithredu Strategaeth Atal Twyll a Chynllun Ymateb i Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio.[25] | Rhaid ei chydlynu â dyletswyddau atal gwyngalchu arian dan eitem 4.6.<br>Mae gan bob Cyfarwyddwr Gweithredol gyfrifoldeb am drefniadau asesu a rheoli risg ar gyfer y swyddogaethau y mae ganddynt hwy drefniadau dirprwyo mewn perthynas â hwy. Mae'r TAG yn ceisio mabwysiadu dull cyfunol lle mae'r cyfrifoldeb am graffu ar drefniadau rheoli risg ar y cyfan yn y cwestiwn. |
| 6.11 | Cofnodi ac adolygu risgiau o dwyll a chyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth sy'n gysylltiedig â hynny | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol | Rhaid ei chydlynu â dyletswyddau atal gwyngalchu arian dan eitem 4.6.<br>Mae gan bob Cyfarwyddwr Gweithredol gyfrifoldeb am drefniadau asesu a rheoli risg ar gyfer y swyddogaethau y mae ganddynt hwy drefniadau dirprwyo mewn perthynas â hwy. Mae'r TAG yn ceisio mabwysiadu dull cyfunol lle mae'r cyfrifoldeb am graffu ar drefniadau rheoli risg ar y cyfan yn y cwestiwn. |
| 6.11 | Sicrhau trefniadau ar gyfer archwilio mewnol cadarn | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ac, yn ei dro, y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd | |

[24] yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gweithredol, y cyfarwyddwr sydd wedi dal cymhwyster CCAB am y cyfnod hiraf sydd ar gael

[25] yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gweithredol, cyfarwyddwr a enwebwyd gan y Tîm Arwain Gweithredol

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 6.12 | System rheoli perfformiad:<br>(a) mewn perthynas â pherfformiad corfforaethol ac eithrio perfformiad ariannol<br>(b) mewn perthynas â pherfformiad staff ac ariannol | (a) Wedi'i dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid<br>(b) Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol[26], neu, yn ei (h)absenoldeb, i gyfarwyddwr a enwebwyd gan y Tîm Arwain Gweithredol | Mae Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol yn ystyried cyngor gan y Tîm Arwain Gweithredol a Thîm y Cyfarwyddwyr |
| 6.13 | Cymeradwyo polisïau cyfrifyddu | Wedi'i chadw'n ôl i'r Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu, ac eithrio os nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael dros dro, ac os felly caiff ei dirprwyo i'r Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro (gweler 6.19 isod) | Wedi'i chadw'n ôl i'r Bwrdd hefyd<br>Bydd y Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd yn cael eu cynghori gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| 6.14 | Cadw cyfrifon a chofnodion priodol mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ac, yn ei dro, y Pennaeth Cyllid | Mae Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Cyllid yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i benaethiaid cyllidebau mewn perthynas â chyllidebau a ddirprwywyd yn ôl y Llawlyfr Rheolaeth Ariannol |
| 6.15 | Paratoi datganiad cyfrifon sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn ariannol | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ac, yn ei dro, y Pennaeth Cyllid | |
| 6.16 | Tynnu sylw at golledion neu daliadau arbennig trwy ychwanegu nodiadau priodol at y cyfrifon blynyddol | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ac, yn ei dro, y Pennaeth Cyllid | |
| 6.17 | Llofnodi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r | Wedi'i chadw'n ôl i'r Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu, ac | |

[26] yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gweithredol, cyfarwyddwr a enwebwyd gan y Tîm Arwain Gweithredol

| | Swyddogaeth | Trefniant dirprwyo/ cadw'n ôl | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | datganiad cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol | eithrio os nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael dros dro, ac os felly caiff ei dirprwyo i'r Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro (gweler 6.19 isod) | |
| 6.18 | Sicrhau bod effaith trefniadau yn unol ag adran 19 o Ddeddf 2013 (gwaith trwy gytundeb a chydweithrediad – "gweithio mewn partneriaeth") yn cael ei hadnabod yn llawn a'i chymryd i ystyriaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru<br>Penderfynu a yw trefniadau o'r fath yn rhoi gwerth da am arian o safbwynt CGC a'r Trysorlys<br>Sicrhau bod trefniadau o'r fath yn cynnwys llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd sydd wedi'u diffinio'n glir ac sydd o gymorth i gyflawni'n effeithiol | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio neu, yn ei (h)absenoldeb, i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol | Gweler hefyd eitem 5 yng nghynllun Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n ymwneud â gwaith trwy gytundeb |
| 6.19 | Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro – cyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Swyddog Cyfrifyddu, fel a nodir ym mharagraff 33 Atodlen 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 neu mewn cyfarwyddiadau neu fanylebau a wnaed dan y paragraff hwnnw (yn enwedig y Memorandwm Swyddog Cyfrifyddu) pan nad yw'r Archwilydd Cyffredinol ar gael dros dro | Wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol.[27] | Bydd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol yn cael ei gynorthwyo gan bobl eraill â'r trefniadau dirprwyo a ddangosir uchod.<br>Ni ddylid drysu rhwng y trefniant dirprwyo hwn a'r trefniant i ddynodi Swyddog Cyfrifyddu dros dro dan baragraff 5 Atodlen 2 Deddf 2013 |

[27] yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gweithredol, y cyfarwyddwr sydd wedi dal cymhwyster CCAB am y cyfnod hiraf sydd ar gael

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.